

**DYFED ARCHAEOLOGICAL TRUST  
NEWSLETTER WINTER 2010**

**NEWYDDLLEN GAEAF 2010  
YMDIRIEDOLAETH ARCHAEOLEGOL DYFED**



ymddiriedolaeth archaeolegol  
**DYFED**  
archaeological trust

[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)  
[www.archaeolegdyfed.org.uk](http://www.archaeolegdyfed.org.uk)

Dyfed Archaeological Trust, an independent organisation dedicated to the effective protection, investigation, recording and promotion of the historic environment.

Dyfed has a highly motivated professional workforce with a wide range of skills and experience. This is complemented by long established contacts and partnerships with external specialists enabling Dyfed to offer extensive consultancy and other archaeological services.

The Shire Hall, Carmarthen Street, Llandeilo,  
Carmarthenshire SA19 6AF  
01558 823121

Email Alice Pyper—[a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk)  
(Limited Company No. 1198990—Registered Charity No. 504616)  
[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

Production of  
this newsletter  
was grant-aided  
by Cadw



Cynhyrchwyd y  
newyddlen hon  
gyda chymorth  
grant gan Cadw

Cover: One of the Bronze Age  
Pygmy Cups from the excavation  
of Fan round barrow.

Clawr: Un o Gwpanau Pigmi yr  
Oes Efydd o safle cloddio beddrod  
crwn y Fan.

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yw corff annibynnol sy'n ymroi i ddiogelu, ymchwilio, cofnodi a hybu'r amgylchedd hanesyddol yn effeithiol.

Mae gan Dyfed weithlu proffesiynol ac uchel eu cymhelliant syd ag amrywiaeth mawr o sgiliau of phrofiad. Ategir hynny â chysylltiadau a phartneriaethau—sy'n bod ers tro byd—ag arbenigwyr allanol sy's fodd i Dyfed gynnig gwasanaethau ymgynhori a gwasanaethau archaeolegol eraill.

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,  
Sir Gaerfyrddin SA19 6AF  
01558 823121

Ebost Alice Pyper – [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk)  
(Cwmni Cyfyngedig 1198990 - Elusen  
Gofrestredig 504616)  
[www.archaeolegdyfed.org.uk](http://www.archaeolegdyfed.org.uk)

## ARTEFFACTAU CYNHANESYDDOL PWYSIG YN CAEL EU DARGANFOD YNG NGHEREDIGION

Mae rhifyn hwn o'r newyddlen yn ymroddedig i ganlyniadau dramatig o ddau safle cloddio beddrodau crwn yr Oes Efydd yng Ngheredigion.

Adroddwyd canlyniadau cloddfeydd 2009 mewn dau feddrod crwn ym **Mhant y Butler** ger Aberteifi yn rhifyn hydref 2009 o'r newyddlen. Mae cloddio pellach yn ystod 2010 wedi datgelu mwy o dystiolaeth ysblennydd.

Yn wreiddiol, byddai'r ddau feddrod wedi bod yn nodweddion amlwg yn y dirwedd, ond dros y canrifoedd roeddent wedi cael eu lleihau hyd nes eu bod prin yn weladwy, ac felly, penderfynom eu cloddio cyn iddynt ddiplannu'n gyfan gwbl.



Beddrod crwn Pant y Butler gyda'r bedd lle darganfuwyd y mwclis, sy'n cael ei ddangos fel pwll llawn cerrig.

Pant y Butler round barrow with the grave in which the necklace was found showing as a stone-filled pit.

## IMPORTANT PREHISTORIC ARTEFACTS DISCOVERED IN CEREDIGION

This issue of the newsletter is devoted to the dramatic results from two excavations on Bronze Age round barrows in Ceredigion.

The results of the 2009 excavations on two round barrows at **Pant y Butler** near Cardigan were reported on in the autumn 2009 Newsletter. Further excavation during 2010 revealed more spectacular evidence.

The two barrows would originally been obvious features in the landscape, but over the centuries they had been reduced to the point where they were barely visible, and therefore we decided to excavate them before they finally disappeared.



Y bedd sydd wedi cael ei gloddio ym Mhant y Butler a'r asgwrn wedi'i amlosgi.

The excavated grave at Pant y Butler showing the cremated bone.

Pedair mil o flynyddoedd yn ôl, roedd cyrff fel arfer yn cael eu hamlosgi, ac roedd yr esgyrn llosg yn cael eu gosod mewn pwll bas ac yna ei orchuddio â thwmpath, fel oedd yn wir ar gyfer y rheiny a ddarganfuwyd ym Mhant y Butler. Yn ystod y cloddio, darganfuwyd bod rhywun wedi palu trwy'r twmpathau ac wedi symud y claddedaethau gwreiddiol ac wedi claddu amlosgiadau newydd yn eu lle. Mae hyn yn hynod anarferol, ac mae'n ymddangos bod hon yn weithred fwriadol gan un grŵp o bobl i symud, dinistrio a chymryd lle rhywbeth a oedd yn werthfawr a sanctaidd i grŵp cynharach o bobl. Nid ydym yn gwybod eto ai ychydig flynyddoedd neu sawl cenhedlaeth sy'n rhannu'r ddau ddigwyddiad hwn.

Roedd mwclis wedi'i wneud o fuchudd a cherrig eraill wedi cael ei losgi gyda'r corff a'i osod yn y bedd gydag un o'r amlosgiadau. Roedd y muchudd mwy na thebyg wedi dod o Whitby ar arfordir dwyreiniol Lloegr, ac mae'n dystiolaeth o gyswllt dros bellteroedd hir. Pedair mil o flynyddoedd yn ôl, byddai muchudd wedi cael ei drysori am ei briodweddau a oedd yn ymddangos yn hudol, ond roedd yn brin, ac mae mwclis Pant y Butler yn un o bedwar yn unig o'r cyfnod hwn yng Nghymru.

Mwclis gleiniau muchudd o Pant y Butler wedi'i fewnosod yn yr asgwrn llosg.  
Llun: Phil Parkes, Prifysgol Caerdydd.


The jets bead necklace from Pant y Butler embedded in the burnt bone.  
Photo: Phil Parkes, Cardiff University.



Gan fod y gwaith maes bellach wedi cael ei gwblhau, mae angen gwneud llawer o waith yn y labordy cyn y datgelir holl ganlyniadau'r cloddiad cyffrous hwn.

Hoffem ddiolch i Mr David George am ganiatáu i ni gloddio ar ei dir. Hoffem hefyd roi diolch am ymroddiad gwirfoddolwyr lleol, gan na fyddai'r cloddio wedi digwydd hebddynt. Roedd Cadw wedi rhoi grant i'r cloddio.

Mwclis gleiniau muchudd Pant y Butler ar ôl cael ei lanhau yn y labordy. Llund: Phil Parkes, Prifysgol Caerdydd



The Pant y Butler jet bead necklace following cleaning in the laboratory. Photo: Phil Parkes, Cardiff University.

Four thousand years ago bodies were normally cremated, and the burnt bone placed in a shallow pit and then covered with a mound, as at was the case with those found at Pant y Butler. During the excavation it was discovered that someone had dug through the mounds and removed the original burials and buried new cremations in their place. This is most unusual, and it seems that this was a deliberate act by one group of people to remove, destroy and replace something that was precious and sacred to an earlier group of people. We do not yet know whether these two events were separated by a few years or several generations.

A necklace made of jet and other stone had been burnt with a body and placed in a grave with one of cremations. The jet probably came from Whitby on the east coast of England, and is evidence of contact over long distances. Four thousand years ago jet would have been treasured for its seemingly magical properties, but it was rare, and the Pant y Butler necklace is one of only four of this date from Wales.

Now that the fieldwork is complete much laboratory work is required before all the results of this exciting excavation are revealed.

We would like to thank Mr David George for allowing the excavation on his land. We would also like to thank the dedication of local volunteers, without whom the excavation would not have taken place. Cadw grant-aided the excavation.

Amlygwyd pwysigrwydd beddrod crwn yn y **Fan** ger Talsarn yn y 19eg ganrif pan ddarganfuwyd blaen gwaywffon efydd a llestr bychan o'r enw Cwpan Pigmi. Byddai'r ddau arteffact yr Oes Efydd hyn wedi bod yn nwyddau claddu, ond nid yw'n ymddangos bod unrhyw dystiolaeth o gladdedigaeth, neu gladdedigaethau, wedi cael ei ddarganfod yn y 19eg ganrif. Roedd Cwpanau Pigmi mwy na thebyg yn cynnwys offrymau, dehongliad a ddynodir gan eu henw arall, sef 'Cwpanau Thus'.

Ers y darganfyddiadau yn y 19eg ganrif, mae'r beddrod crwn wedi cael ei wastatáu ac yn cael ei aredig yn rheolaidd. Penderfynwyd felly i gloddio ar raddfa fach i ddarganfod a oedd unrhyw beth o arwyddocâd ar ôl.

Ni wnaeth dim o'r twmpath beddrod crwn oroesi. Fodd bynnag, darganfuwyd dau fedd bach iawn a bas iawn. Roedd un o'r rhain wedi'i leinio â cherrig ac yn cynnwys asgwrn wedi'i amlosgi a Chwpan Pigmi. Roedd globylau o efydd wedi cymysgu â'r asgwrn sy'n arwydd bod blaen gwaywffon neu glefydd wedi cael ei osod yn y crochan angladdol gyda'r corff. Roedd wrn mawr a oedd yn cynnwys esgyrn wedi'u hamlosgi yn yr ail fedd wrth ochr Cwpan Pigmi. Symudwyd yr wrn yn gyfan fel y gellir tynnu ei gynnwys yn ofalus yn y labordy ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae canlyniadau cychwynol yn dangos bod Cwpan Pigmi arall yn yr wrn mawr gyda'r esgyrn wedi'u hamlosgi. Oherwydd pwysigrwydd y safle a'r arteffactau sydd wedi cadw'n dda yn rhyfeddol, gobeithir y gellir cloddio mwy yn ystod 2011.

Hoffem ddiolch i Mr a Mrs Wright am ganiatáu i ni gloddio ar eu tir. Roedd Cadw wedi rhoi grant i'r cloddio.



Dechrau cloddio ar y safle sy'n edrych yn anaddawol ar feddrod crwn y Fan.

Starting excavation on the unpromising looking site at Fan round barrow.



Un o Gwpanau Pigmi y Fan yn dod allan o'r ddaear.

One of the Fan Pygmy Cups emerging from the ground.

The importance of a round barrow at **Fan** near Talsarn was highlighted in the nineteenth century by the discovery of bronze spearhead and a miniature pot called a Pygmy Cup. These two Bronze Age artefacts would have been grave goods, but no evidence of a burial, or burials, seems to have been discovered in the nineteenth century. Pygmy Cups probably containing offerings, an interpretation indicated by their alternative name 'Incense Cups'.

Since the nineteenth century discoveries the round barrow has been flattened and regularly ploughed over. It was therefore decided to carry out a small-scale excavation to discover if anything of significance remained.

Nothing of the round barrow mound survived. However, two small, very shallow graves were discovered. One of these was stone-lined and contained cremated bone and a Pygmy Cup. Globules of bronze mixed in with the bone indicate a spearhead or a sword had been placed on the funerary pyre with the body. A large urn containing cremated bone had been placed in the second grave alongside a Pygmy Cup. The urn was removed intact so that its content can be carefully excavated in the laboratory at Cardiff University. Initial results indicate that there is yet another Pygmy Cup in the large urn with the cremated bone. Because of the importance of the site and the surprisingly well-preserved artefacts it is hoped that more excavation can be carried out during 2011.

We would like to thank Mr and Mrs Wright for allowing the excavation on their land. Cadw grant-aided that excavation.

Darnau o efydd o arteffact a doddwyd yn y goelcerth angladdol.



Fragments of bronze from an artefact melted in the funeral pyre.



Un o Gwpanau Pigmi y Fan ar ôl cael ei lanhau yn y labordy.  
Llun: Phil Parkes, Prifysgol Caerdydd

One of the Fan Pygmy Cups after cleaning in the laboratory.  
Photo: Phil Parkes, Cardiff University.

## EXPLORATION TYWI DAY SCHOOL - A CELEBRATION! SATURDAY 5<sup>TH</sup> FEBRUARY

A day of talks and exhibitions illustrating the results of research and fieldwork in the Tywi Valley, Carmarthenshire will be held at Tregib School, Llandeilo on Saturday the 5<sup>th</sup> February 2011.

Speakers will include members of Dyfed Archaeological Trust: Hazel Williams, Alice Pyper, Jim Meek, and Phil Poucher, and Anna Jones of Aberystwyth University.

Booking is essential. There will be a small charge to attend the Celebration, but this will include a buffet lunch.

Contact [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk)

*Tywi a River Through Time is part funded by Heritage Lottery Fund, Countryside Council for Wales, Rural Development Plan, Welsh Assembly Government, Carmarthenshire County Council and in kind by The National Trust.*

## YSGOL DDYDD ARCHWILIO'R TYWI - DATHLIAD! DYDD SADWRN 5 CHWEFROR

Bydd diwrnod o sgysiau ac arddangosfeydd yn dangos canlyniadau ymchwil a gwaith maes yn Nyffryn Tywi, Sir Gâr a fydd yn cael ei gynnal yn Ysgol Tregib, Llandeilo, dydd Sadwrn 5 Chwefror 2011.

Bydd y siaradwyr yn cynnwys aelodau o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed: Hazel Williams, Alice Pyper, Jim Meek, a Phil Poucher, ac Anna Jones o Brifysgol Aberystwyth.

Mae archebu lle yn hanfodol. Codir tâl bach i fynychu'r dathliad, ond bydd hwn yn cynnwys cinio bwffe.

Cysylltwch ag [a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:a.pyper@dyfedarchaeology.org.uk)

*Mae Tywi Afon yr Oesoedd yn cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cynllun Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cyngor Sir Gâr, ac mewn nwyddau gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.*